



Theatr Genedlaethol Cymru  
Theatr Clwyd



## Cwestiynau Cyffredin

### Pa gefnogaeth fydd ar gael gan Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Clwyd?

Bydd tîm Theatr Gen a Theatr Clwyd yn cefnogi pob unigolyn sy'n cael eu dewis i gymryd rhan yn **Ha/Ha**. Yn ystod y broses, byddwn yn cydlynu sesiynau adborth, sesiynau dramatwrgol yn ogystal â gweithdy ar-lein gydag arbenigwr ym maes theatr a chomedi. Bydd Daniel Lloyd a Rhian Blythe, cydgyfarwyddwyr, yn arwain y prosiect gyda help llaw Steffan Donnelly, Cyfarwyddwyr Artistig Theatr Gen a Kate Wasserberg, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Clwyd. Gavin Richards, cynhyrchydd Theatr Gen fydd yn cydlynu'r prosiect.

### Beth yw'r amserlen?

<b>06 Mawrth 2024</b>	<b>Cyfnod mynegi diddordeb yn agor</b> Gallwch wneud hyn trwy lenwi ffurflen Mynegi Diddordeb syml yn y Gymraeg drwy Microsoft Forms, neu gyflwyno cais fideo nad yw'n fwy na 2 funud o hyd at <a href="mailto:creu@theatr.com">creu@theatr.com</a> , neu drwy WhatsApp ar 07903 842616. Bydd y ffurflen yn cynnwys Ffurflen Monitro Cydraddoldeb hefyd.
<b>25 Mawrth 2024, 12pm</b>	<b>Dyddiad cau mynegi diddordeb</b>
<b>03 Ebrill 2024</b>	Bydd y rhai a wahoddir i gyflwyno cais llawn, ynghyd â braslun am ddrama gomedi 10 munud o hyd, yn clywed wrthym erbyn 3 Ebrill. Byddwn yn darparu ffurflen gais yn ogystal â manylion ynghylch cyflwyno cais fideo. Byddwn hefyd yn cynnig ffi o £50 ar gyfer llunio'r cais a'r braslun.
<b>22 Ebrill 2024, 12pm</b>	<b>Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau llawn. Bydd gennym le i 4 artist ar y prosiect.</b>
<b>20 Mai 2024</b>	Bydd dosbarth-feistr gydag arbenigwr ym maes ysgrifennu comedi yn cael ei gynnal i'r 4 artist ar 20 Mai. Bydd y gweithdy yma yn digwydd ar-lein. Gofynnwn yn garedig i'r 4 ymgeisydd llwyddiannus i fod ar gael ar gyfer y gweithdy yma.
<b>10 Mehefin 2024</b>	Bydd gofyn i chi gyflwyno drafft gyntaf eich gwaith erbyn 12yh.
<b>08 Gorffennaf 2024</b>	Bydd gofyn i chi gyflwyno drafft terfynol erbyn 12yh.
<b>26 Gorffennaf 2024 – 03 Awst 2024</b>	Ymarferion (Bydd cyfle i ymweld â'r ystafell – mae'r dyddiau hyn i'w cadarnhau)



**06 Awst 2024 – 08 Awst 2024**

Perfformiadau yng Nghaffi Maes B yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf

### **Ydw i'n gallu cynnwys CV fel atodiad ychwanegol wrth fynegi diddordeb i gymryd rhan?**

Mae croeso i chi atodi CV neu gyflwyno manylion eich CV drwy fideo os ydych yn dymuno, ond does dim rheidrwydd arnoch i wneud hynny.

### **Beth yw'r telerau?**

Os gwahoddir chi i gyflwyno cais llawn a braslun am ddrama gomedi 10 munud o hyd, telir £50 ar eu cyflwyno ac ar lenwi Ffurflen Cyflenwyr Newydd (os yn berthnasol ) a chyflwyno anfoneb.

Os gwahoddir chi i fod yn rhan o **Ha/Ha** , byddwch yn derbyn comisiwn o £700.

Lle bo hynny'n briodol, bydd Theatr Gen yn talu costau teithio, llety, cynhaliaeth ac yn hwyluso trefniadau hygrychedd. Gofynnwn i chi lenwi Ffurflen Mynediad i ni.

### **Beth os nad wyf ar gael y dyddiau a nodir?**

Mae rhai o'r dyddiau a restrwyd yn yr amserlen uchod yn hyblyg, ac nid yw peidio â bod ar gael ar gyfer ambell ddiwrnod yn golygu'n bendant na allwch gymryd rhan yn HA/HA. Os am drafod unrhyw fater yn ymwneud â'r dyddiau neu eich argaeledd, cysylltwch â Gavin Richards ar [gavin.richards@theatr.com](mailto:gavin.richards@theatr.com)

### **Beth yw nod y prosiect?**

Mae Ha/Ha yn rhan o gynllun hirdymor gan Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Clwyd fydd yn hybu ac yn cefnogi artistiaid i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu comedi, a hynny trwy ddsbarthiadau meistr, gweithdai a chymorth dramawrgol, ynghyd â chyflwyniadau i gynulleidfaoedd Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Cam cyntaf y cynllun yw cydweithio gyda grwp o 4artist i gyflwyno eu gwaith yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024. Bydd cast proffesiynol yn cyflwyno'r 4 drama 10 munud yng Nghaffi Maes B am 5yh nos Fawrth hyd at nos Iau.

Byddwn yn cyhoeddi cynlluniau eraill o dan adain y cynllun hwn maes o law.

### **Oes yna unrhyw gyfyngiadau?**

Mae Ha/Ha yn agored i unrhyw artist yng Nghymru sydd dros 18 oed ac yn medru'r Gymraeg. neu'n awyddus i gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

### **Dydw i erioed wedi ysgrifennu ar gyfer theatr o'r blaen, ydw yn gymwys i ymgeisio?**

Ry'n ni'n croesawu ceisiadau gan unrhyw un sydd â diddordeb neu uchelgais i greu gwaith comedi, beth bynnag yw eich profiad. S'dim rhaid bod yn sgwennwyr proffesiynol neu fod wedi gweithio yn y sector. Mae croeso i artistiaid ar ddechrau eu gyrfa ac artistiaid profiadol..



**Dydw i ddim yn hyderus yn ysgrifennu/siarad Cymraeg. Ydw i'n cael mynegi diddordeb?**

Wrth gwrs. Bydd angen cyflwyno eich mynegiant o ddiddordeb a chais llawn yn y Gymraeg, a bydd disgwyl i'r gwaith a ddatblygir fod yn bennaf yn y Gymraeg, ond gallwn eich cefnogi i wneud hynny. Mae datblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y celfyddydau yn hynod bwysig i ni fel cwmni.

**Nid yw fy nghwestiwn wedi cael ei ateb uchod, gyda phwy ddylwn i gysylltu?**

Os nad yw'ch cwestiwn wedi'i ateb uchod, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â [Gavin.richards@theatr.com](mailto:Gavin.richards@theatr.com)